



Arweiniad Cyffredinol



Asesiad Risg  
Enghreifftiol ar gyfer  
Rheoli Traffig



Cynllun Rheoli  
Traffig Enghreifftiol

XXXX

# Rheoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol

Dogfen 1 o 3 –  
Cyfarwyddyd Cyffredinol

Rhifyn 1

Mai 2018

## CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	1
2.	Safle Diogel	1
3.	Asesiad Risg Traffig	2
4.	Cynllun Rheoli Traffig	10
5.	Adolygiadau	17
6.	Cyngor	18
7.	Dogfennau Perthnasol	18

## **1. CYFLWYNIAD**

Mae dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwr i reoli iechyd a diogelwch yn briodol ar ei safleoedd. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, ac, ar gyfer ysgolion a gynhelir gan y Cyngor, y Cyngor sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y pendraw.

Serch hynny, Penaethiaid ysgol sy'n gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch yn eu hysgolion unigol.

Rhaid i ysgol nodi peryglon sy'n gysylltiedig â'i safle a'r hyn sy'n digwydd ar y safle, a datblygu a gweithredu mesurau i ddileu neu reoli'r risgiau sy'n deillio o'r peryglon hynny.

Un o'r peryglon yma yw'r symudiadau traffig ar y safle.

Bwriad y ddogfen yma yw rhoi arweiniad ar reoli diogelwch traffig i Benaethiaid ysgol, ac yn benodol, ar baratoi asesiad risg traffig a chynllun rheoli traffig. Ynghyd â'r cyfarwyddyd cyffredinol yma (Dogfen 1 o 3), mae Asesiad Risg Enghreifftiol ar gyfer Rheoli Traffig (Dogfen 2 o 3) a Chynllun Rheoli Traffig Enghreifftiol (Dogfen 3 o 3).

Mae disgwyl i Benaethiaid ysgolion a gynhelir gan y Cyngor ddilyn yr arweiniad yma.

Caiff Penaethiaid Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ddilyn yr arweiniad yma os ydyn nhw'n ei weld yn ddefnyddiol ac os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

I lawer o ysgolion, symudiad traffig yw un o'r peryglon mwyaf difrifol y mae rhaid iddyn nhw fynd i'r afael ag ef oherwydd y gall gwrthdrawiad rhwng cerbyd a cherddwr arwain at farwolaeth. Ar safle ysgol fel arfer, bydd nifer fawr o bobl yn cerdded (yn enwedig disgyblion) a bydd nifer o gerbydau yn symud ar y safle, er enghraifft, cerbydau staff a rhai disgyblion, cerbydau ymwelwyr, bysiau / bysiau mini / tacsis / cerbydau sy'n dosbarthu nwyddau, ac ati.

Felly mae'n hanfodol bod gan ysgolion weithdrefnau a chynlluniau ar waith i reoli diogelwch traffig ar eu safleoedd, er mwyn eu gwneud nhw mor ddiogel â phosibl.

## **2. SAFLE DIOGEL**

Mae pob ysgol unigol yn wahanol ac mae'n bosibl y bydd gyda rhai eu peryglon a'u risgiau traffig penodol eu hunain - efallai na fydd sôn am y rhain yn y canllaw yma. Rhaid ystyried yr holl risgiau rhagweladwy.

Wrth ystyried mesurau rheoli diogelwch traffig, rhaid cofio'r ffaith nad yw cerddwyr, gyrwyr a cherbydau yn ymddwyn mewn modd delfrydol fel arfer, a dylai hyn gael ei ystyried lle bynnag y bo modd.

Bydd gweithle sydd wedi'i gynllunio a'i gynnal yn dda yn golygu bydd damweiniau traffig yn llai tebygol.

Dylai fod digon o lwybrau traffig o led digonol i ganiatáu i bobl a cherbydau symud o amgylch y safle yn ddiogel, gyda'r llwybrau yn cael eu cadw mewn cyflwr da.

Bydd y safle mwyaf diogel yn un lle mae cerbydau a phobl wedi'u gwahanu'n llwyr, drwy sicrhau eu bod nhw'n defnyddio llwybrau hollol wahanol.

Serch hynny, rydyn ni'n gwerthfawrogi'r ffaith na fydd hyn yn ymarferol yn y rhan fwyaf o achosion. Lle bo rhaid i bobl a cherbydau rannu'r un llwybr, dylai cyrbiau / rhwystrau / marciau clir gael eu defnyddio i ddangos llwybrau cerdded diogel, dylai manau croesi i gerddwyr ar lwybrau cerbydau gael eu marcio'n glir, a rhaid sicrhau bod modd gweld yn glir a bod goleuadau da.

Yn aml, mae'n anodd i yrwyr weld y tu ôl i'w cerbydau wrth symud tuag yn ôl, ac o ganlyniad mae hynny'n achosi llawer iawn o ddamweiniau. Y ffordd orau o atal damweiniau wrth i gerbydau symud tuag yn ôl, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yw cynllunio llwybrau traffig fel nad oes angen i yrwyr symud tuag yn ôl - er enghraifft, drwy ddefnyddio systemau unffordd, cylchoedd troi, a manau llwytho/parcio lle mae un ffordd i mewn ac un ffordd allan. Lle mae cynllun y safle yn golygu nad yw cyflwyno mesurau o'r fath yn ymarferol, bydd angen rhoi mesurau eraill ar waith i sicrhau bod symud tuag yn ôl yn ddiogel - er enghraifft, defnyddio cynorthwywyr hyfforddedig sy'n sicrhau ei bod hi'n ddiogel symud tuag yn ôl, gwahardd mynediad i gerddwyr yn agos at fannau lle mae cerbydau yn debygol o symud tuag yn ôl, a gadael i gerbydau sydd â larymau symud tuag yn ôl i ddod ar y safle yn unig, ac ati.

Dylai terfynau cyflymder priodol gael eu pennu, a marciau ac arwyddion addas gael eu darparu fel bydd modd i gerddwyr a gyrwyr wybod beth ddylen nhw ei wneud a'u bod nhw'n cael eu rhybuddio o beryglon posibl.

Rhaid sicrhau bod yr holl reolau traffig ar y safle yn cael eu dilyn.

Lle bo safle'n arbennig o gymhleth, efallai y bydd angen arbenigedd proffesiynol i helpu i nodi peryglon a risgiau diogelwch traffig, ac atebion angenrheidiol.

### **3. ASESIAD RISG AR GYFER RHEOLI TRAFFIG**

Er mwyn i'r safle ysgol fod mor ddiogel â phosibl mewn perthynas â symudiadau traffig, rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod asesiad risg ar gyfer rheoli traffig yn cael ei gynnal.

Dylai'r asesiad risg ar gyfer rheoli traffig wneud y canlynol:

- nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â symudiadau traffig;
- pennu pwy all gael ei niweidio a sut;
- gwerthuso'r risgiau a phennu mesurau sy'n angenrheidiol i'w dileu neu eu rheoli;

- cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r mesurau rheoli sydd wedi'u pennu ar waith, yn ôl yr angen.

Rhaid cadw cofnod o ganfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risg, gan gynnwys y cynllun gweithredu.

Rhaid rhoi gwybod i'r holl bobl berthnasol am ganfyddiadau'r asesiad risg ynghyd â'r mesurau rheoli sydd eu hangen i ddileu neu reoli risgiau.

Rhaid adolygu'r asesiad bob hyn a hyn, a hefyd, os oes unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau perthnasol, er enghraifft, os yw damwain sy'n ymwneud â thraffig yn digwydd. Rhaid sicrhau bod yr asesiad yn cael ei ddiweddarau pan fydd angen, a'i fod yn parhau i fod yn addas, digonol ac effeithiol, yn yr un modd ag unrhyw gynllun rheoli traffig sy'n cael ei ddatblygu o'r asesiad risg.

Rhaid cofio nad amgylchiadau sy'n newid ar y safle yn unig a all effeithio ar yr asesiad risg / cynllun rheoli traffig - gall gwaith ffordd / goleuadau traffig cysylltiedig (er enghraifft) sy'n cael eu cyflwyno y tu allan i'r ysgol effeithio arno hefyd.

Er bod y Cyngor dim ond yn gyfrifol am ddiogelwch traffig ar y safle ysgol ei hun, bydd angen i'r asesiad risg ystyried materion sydd y tu allan i'r ysgol ac o'i hamgylch a all effeithio ar yr asesiad. Er enghraifft, mynediadau ac allanfeydd i gerddwyr a cherbydau; manau croesi i gerddwyr ar briffyrdd a sut bydd cerddwyr yn cyrraedd y safle ar ôl croesi; manau lle bydd bysiau lleol yn stopio a mynediad i'r safle gan deithwyr; unrhyw feysydd parcio sydd ar gael i ymwelwyr i'r ysgol fel na fydd rhaid iddyn nhw ddod â'u cerbydau ar y safle, ac ati.

At hynny, efallai y byddai'r asesiad risg yn nodi mesurau rheoli ar y safle a fyddai'n gwella diogelwch traffig yr ysgol ond a allai fod â goblygiadau i symudiadau traffig ar y briffordd gyhoeddus, er enghraifft: croesfan newydd i gerddwyr ar gyrion y safle ysgol ac yn union wrth ymyl y briffordd gyhoeddus; mynedfa/gât ymadael newydd i'r/o'r ysgol oddi ar y / i'r briffordd gyhoeddus, ac ati.

Yn amlwg, byddai darparu unrhyw fesur o'r fath oddi ar y safle, y tu allan i awdurdod yr ysgol ac, fel y cyfryw, byddai'n rhaid i'r ysgol wneud cais i'r adran berthnasol o'r Cyngor, megis Priffyrdd, i'w ddarparu.

At hynny, efallai y byddai'r asesiad risg yn nodi mesurau rheoli ychwanegol oddi ar y safle a fyddai'n gwella diogelwch traffig yr ysgol, megis croesfan newydd i gerddwyr a / neu dwmpathau arafu ar briffordd gyhoeddus y tu allan i'r ysgol, ac ati. Yn amlwg, byddai darparu unrhyw fesur o'r fath oddi ar y safle, y tu allan i awdurdod yr ysgol ac, fel y cyfryw, byddai'n rhaid i'r ysgol wneud cais i'r adran berthnasol o'r Cyngor, megis Priffyrdd, i'w ddarparu.

Gan nad oes modd gwarantu y bydd unrhyw fesurau oddi ar y safle o'r fath yn cael eu darparu, ddylai asesiad risg ar gyfer rheoli traffig / cynllun rheoli traffig ddim dibynnu arnyn nhw fel mesurau rheoli oni bai eu bod nhw'n cael eu rhoi ar waith, a hyd nes i hynny ddigwydd.

## **Materion i'w hystyried / Mesurau rheoli posibl**

Y prif berygl i'w hystyried wrth ymgymryd ag asesiad risg ar gyfer rheoli traffig yw cerddwyr sy'n cael eu hanafu gan wrthdrawiad gyda cherbyd. Gall gwrthdrawiadau cerbydau hefyd arwain at anafiadau i yrwyr a theithwyr a bydd angen ystyried hynny. Er hynny, os yw terfyn cyflymder addas yn cael ei orfodi ar y safle a bod pawb yn cydymffurfio ag ef, bydd unrhyw anaf sy'n digwydd yn sgil gwrthdrawiad yn llai tebygol o fod yn ddifrifol.

Mae nifer o amgylchiadau a allai gynyddu'r tebygolrwydd y bydd damwain traffig yn digwydd, er enghraifft, nifer a math y cerbydau sy'n mynd i'r safle a'u symudiadau, nifer y cerddwyr sy'n mynd ar y safle ac a yw'r rhain yn cynnwys pobl agored i niwed ai peidio, yr amser pan fydd cerddwyr a cherbydau ar y safle a ph'un a ydyn nhw yno ar yr un pryd.

Wrth ymgymryd â'r asesiad, mae'n bwysig felly bod pob cerbyd a cherddwr, (gan gynnwys unrhyw bobl agored i niwed) sy'n mynd ar y safle, a phryd maen nhw'n gwneud hynny, ynghyd â'u symudiadau, yn cael eu nodi a'u hystyried.

Gallai cerbydau fod yn geir sy'n cael eu gyrru gan staff, rhieni, disgyblion a chontractwyr, bysiau / bysiau mini / tacsis dan gontract, cerbydau dosbarthu/casglu nwyddau a cherbydau sbwriel ac ailgylchu. Gallai cerddwyr gynnwys staff, disgyblion, rhieni, ymwelwyr a chontractwyr / eu gweithwyr a gyrwyr cerbydau dosbarthu/casglu nwyddau a cherbydau sbwriel ac ailgylchu sy'n cerdded ar y safle. Gallai pobl sy'n agored i niwed gynnwys pobl ag anabledau symudedd / clyw / golwg, y rheini ag anawsterau dysgu neu blant ifainc.

Yn amlwg, bydd nifer y bobl ar y safle yn amrwyio ar adegau gwahanol, er enghraifft, pan fydd yr ysgol yn dechrau /gorffen.

Wrth ystyried symudiadau, mae'n arbennig o bwysig i ystyried cerbydau sy'n symud tuag yn ôl.

Mae'n debygol y bydd gan bob safle rai mesurau rheoli ar gyfer diogelwch traffig sydd ar waith eisoes, megis arwyddion, marciau ffordd, terfyn cyflymder y safle, twmpathau arafu, llwybrau cerdded a chroesfannau dynodedig, ac ati.

Ar ôl nodi'r materion sy'n effeithio ar unrhyw safle penodol mewn perthynas â symudiadau traffig, rhaid ystyried unrhyw fesurau rheoli presennol gyda'r bwriad o asesu a ydyn nhw'n ddigonol i leihau'r risg i'r lefel isaf sy'n rhesymol ymarferol, neu os oes mesurau rheoli ychwanegol yn bodoli y byddai'n rhesymol eu cyflwyno i leihau'r risg ymhellach.

Isod, mae enghreifftiau o faterion y bydd angen eu hystyried mewn asesiad risg ar gyfer rheoli traffig, ynghyd ag enghreifftiau o'r mesurau rheoli posibl a allai gael eu cyflwyno i leihau'r risg mewn perthynas â'r materion yma. (Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr - mae'n debygol y bydd yna faterion sy'n benodol i'r safle y bydd angen eu hystyried, a bydd ymarferoldeb gweithredu unrhyw fesur rheoli penodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol ar unrhyw safle penodol).

Pwyntiau i'w hystyried	Mesurau Rheoli Posibl
<p><b>Oddi ar y safle</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes manau parcio a manau dosbarthu/casglu nwyddau ar gael ger y safle?</li> <li>◦ oes mesurau arafu traffig yn eu lle ar/ger unrhyw briffyrdd cyhoeddus yn y cyffiniau?</li> <li>◦ oes modd i yrwyr weld yn glir y tu allan i'r fynedfa a'r allanfa?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os oes, ystyried gwahardd cerbydau'n llwyr neu ar adegau penodol (er enghraifft, ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac ar ei ddiwedd) rhag dod ar y safle i barcio neu ddosbarthu a chasglu nwyddau.</li> <li>◦ os na, cyflwyno cais i'r adran berthnasol o'r Cyngor er mwyn rhoi mesurau o'r fath ar waith (neu eu darparu) - er enghraifft, terfyn cyflymder is, twmpathau arafu, arwyddion sy'n rhybuddio, croesfannau i gerddwyr, ac ati.</li> <li>◦ os na, gosod drych fel bod modd gweld y traffig ar y safle, torri'r llystyfiant, ac ati.</li> </ul>
<p><b>Mynedfa ac Allanfa'r Safle</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ ydy mynedfa ac allanfa'r safle mewn manau gwahanol?</li> <li>◦ oes llwybrau gwahanol ar gyfer cerddwyr a cherbydau wrth ddod i mewn ac wrth adael?</li> <li>◦ oes modd i yrwyr weld yn glir wrth y fynedfa a'r allanfa?</li> <li>◦ oes cyfnodau brig o ran symudiadau cerddwyr a cherbydau dan gontract?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os na, creu manau cyrraedd a gadael ar wahân.</li> <li>◦ os na, creu manau cyrraedd a gadael ar wahân ar gyfer cerddwyr a cherbydau.</li> <li>◦ os na, gosod drych fel bod modd gweld y traffig ar y safle, torri'r llystyfiant, ac ati.</li> <li>◦ os oes, hyd yn oed os nad oes unrhyw fannau parcio / casglu a dosbarthu nwyddau ar gael (edrychwch ar y pwynt bwled o dan</li> </ul>

Pwyntiau i'w hystyried	Mesurau Rheoli Posibl
	<p><b>Oddi ar y safle</b> uchod), gall fod yn beth call i osod cyfyngiadau ar fynediad cerbydau i'r safle, er enghraifft, peidio â chaniatáu i nwyddau gael eu casglu neu'u dosbarthau ar ddechrau'r diwrnod ysgol neu ar ei ddiwedd.</p>
<p><b>Llwybrau i Gerddwyr a Cherbydau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes llwybrau neilltuedig ac wedi'u gwahanu i gerddwyr a cherbydau fel nad oes cyswllt rhyngddyn nhw?</li> <li>◦ ydy hi'n hawdd gweld y llwybrau ac ydyn nhw wedi cael eu marcio'n glir?</li> <li>◦ ydy lled y llwybrau i gerddwyr/gerbydau yn ddigonol ar gyfer nifer y bobl / nifer a lled y cerbydau fydd yn eu defnyddio?</li> <li>◦ lle mae llwybrau i gerddwyr yn cyffwrdd â llwybrau i gerbydau, oes mesurau ar waith i ddiogelu cerddwyr?</li> <li>◦ lle mae llwybrau i gerddwyr yn cyffwrdd â llwybrau i gerbydau, oes mesurau ar waith i ddiogelu cerddwyr?</li> <li>◦ oes mesurau arafu traffig yn eu lle ar llwybrau i gerbydau?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os na, creu llwybrau sydd wedi'u gwahanu'n llwyr ar gyfer cerddwyr a cherbydau ymhob rhan o'r safle.</li> <li>◦ os na, marcio'r llwybrau yn glir, creu llwybrau sydd â lliw arbennig (er enghraifft) a gosod arwyddion addas, ac ati.</li> <li>◦ os na, gwneud y llwybrau yn fwy llydan fel eu bod nhw'n ddigon mawr i nifer y bobl / nifer a lled y cerbydau sy'n eu defnyddio, a hynny heb ganiatáu i un gyffwrdd â'r llall.</li> <li>◦ Os na, darparu cyrbau / rhwystrau ac ati.</li> <li>◦ os na, darparu croesfannau sydd wedi'u marcio'n glir i gerddwyr, ac arwyddion clir.</li> <li>◦ os na, cyflwyno terfyn cyflymder addas ar y safle ynghyd ag arwyddion cysylltiedig, gosod</li> </ul>



Pwyntiau i'w hystyried	Mesurau Rheoli Posibl
<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes modd i gerddwyr a gyrwyr weld yn glir ar (ac o gwmpas) y llwybrau?</li> </ul>	<p>twmpathau arafu ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os na, sicrhau bod goleuadau allanol digonol yn cael eu darparu a'u cynnal, torri llystyfiant, gosod drych traffig ac ati.</li> </ul>
<p><b>Cerbydau'n symud tuag yn ôl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ ydy'r cerbydau yn symud tuag yn ôl ar y safle?</li> <li>◦ lle nad yw hi'n ymarferol dileu symudiadau tuag yn ôl yn gyfan gwbl, oes mesurau yn eu lle i ddiogelu cerddwyr?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os ydyn nhw, dileu'r angen i gerbydau symud tuag yn ôl, neu, os nad yw hyn yn ymarferol, lleihau'r angen yn gymaint â phosibl drwy gyflwyno / weithredu system unffordd, cylch troi, manau llwytho a pharcio lle mae un ffordd i mewn ac un ffordd allan ac ati.</li> <li>◦ os na, gweithredu parthau sy'n gwahardd cerddwyr o gwmpas y manau lle mae angen i gerbydau symud tuag yn ôl, gosod rhwystrau rhwng manau o'r fath a'r llwybrau i gerddwyr, amodi mewn contractau gyda darparwyr gwasanaeth y dylai unrhyw o'u cerbydau sy'n dod ar y safle fod â larymau symud tuag yn ôl, amodi y dylai gyrwyr ddefnyddio cynorthwyywyr (bancsmyn) - lle maen nhw ar gael (er enghraifft, gyrwyr cerbydau sbwriel ac ailgylchu o bosibl), trefnu gyda chyflogwyr y gyrwyr y bydd y gyrwyr dim ond yn symud tuag yn ôl tra na fydd cerddwyr yn yr ardal (er enghraifft, gyrwyr bysiau dim ond yn symud tuag yn ôl cyn i ddisgyblion gyrraedd yr ardal honno ac ar ôl iddyn nhw ei gadael), ac ati.</li> </ul>
<p><b>Cerbydau'n Stopio</b></p>	

Pwyntiau i'w hystyried	Mesurau Rheoli Posibl
<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes cyfleusterau parcio ar y safle?</li> <li>◦ ydy bysiau / bysiau mini / tacsis / cerbydau rhieni yn dod ar y safle i ollwng disgyblion yn yr ysgol neu'u casglu nhw?</li> <li>◦ ydy cerbydau sy'n dosbarthu neu'n casglu nwyddau yn dod ar y safle?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os felly, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u cynllunio, eu dynodi a'u marcio'n briodol, bod arwyddion addas, a'u bod nhw'n cynnwys nifer ddigonol o fannau parcio i'r anabl.</li> <li>◦ os felly, darparu nifer ddigonol o fannau gollwng addas ar gyfer cerbydau rhieni / bysiau / bysiau mini / tacsis ac ati, a'u dynodi a'u marcio'n briodol a bod arwyddion addas; lleoli'r rhain mewn llefydd addas (fel na fydd rhaid i bobl sy'n dod allan ohonyn nhw groesi llwybrau i gerbydau i gyrraedd llwybrau i gerddwyr, er enghraifft).</li> <li>◦ os felly, darparu mannau dosbarthu / casglu (mewn lleoliadau cyfleus) sydd wedi'u cynllunio, eu dynodi a'u marcio'n briodol, a bod arwyddion addas.</li> </ul>
<p><b>Arwyddion / Marciau ffordd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes arwyddion / marciau ffordd addas a digonol yn eu lle o gwmpas y safle sy'n rhoi gwybod i gerddwyr a gyrwyr (ac sy'n eu cyfarwyddo a'u rhybuddio) am y rheolau ar gyfer traffig sy'n dod ar y safle, am y peryglon, am barcio, a'r gofynion o ran gollwng plant ac ati?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os na, darparu arwyddion / marciau ffordd mewn lleoliadau priodol o gwmpas y safle, sy'n rhoi gwybod am y terfyn cyflymder, dim mynediad, dim symud tuag yn ôl, ildio i draffig arall, systemau unffordd, dim troi i'r chwith, dim troi i'r dde, dim parcio, dim stopio, dim aros, dim cerddwyr, croesfannau i gerddwyr ac ati.</li> </ul>
<p><b>Goruchwylio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes angen i staff oruchwylio?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ er enghraifft, gall fod yn ddoeth goruchwylio disgyblion / pobl agored</li> </ul>

Pwyntiau i'w hystyried	Mesurau Rheoli Posibl
<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Lle mae penderfyniad wedi cael ei wneud bod angen i staff oruchwylio, ydyn nhw'n gwybod beth sydd raid iddyn nhw ei wneud a sut i sicrhau eu diogelwch eu hun wrth ymgymryd â'u dyletswyddau goruchwylio? - mae hyn yn cynnwys cael eu gweld yn glir.</li> </ul>	<p>i niwed wrth iddyn nhw fynd o fynedfeydd safleoedd / manau gollwng i ddrysau adeiladau ac i'r gwrthwyneb; ar groesfannau i gerddwyr, ar amser egwyl i sicrhau nad ydyn nhw'n cerdded ar lwybrau cerbydau pan fydd cerbydau yn dosbarthu / casglu nwyddau; ar gyfnodau brig pan fydd llawer o symudiadau cerddwyr a thraffig (er enghraifft, ar ddechrau'r diwrnod ysgol neu ar ei ddiwedd).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ pan fydd staff â dyletswyddau goruchwylio, rhaid sicrhau eu bod nhw'n deall yr hyn sydd raid iddyn nhw'i wneud, a bod gwybodaeth/cyfarwyddyd ddigonol/digonol a siacedi llachar gyda nhw i sicrhau eu diogelwch eu hunain.</li> </ul>
<p><b>Monitro</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod cydymffurfiad â rheolau traffig y safle?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>◦ os na, rhoi gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau, er enghraifft, bod gyrwyr bysiau / bysiau mini / tacsis / cerbydau dosbarthu a chasglu yn gweithredu yn unol â'r rheolaethau cytunedig, er enghraifft, cydymffurfio ag unrhyw derfynau amser, gofynion o ran symud tuag ag yn ôl; bod gyrwyr yn gyffredinol yn cydymffurfio â rheolaethau traffig y safle, er enghraifft, y terfyn cyflymder ar y safle, cyfyngiadau parcio/stopio; bod cerddwyr yn cydymffurfio â rheolaethau traffig safle, er enghraifft, defnyddio llwybrau cerdded, croesfannau i gerddwyr ac nad ydyn nhw'n mynd i mewn i</li> </ul>

Pwyntiau i'w hystyried	Mesurau Rheoli Posibl
	barthau gwahardd cerddwyr ac ati.

**Mae enghraifft o asesiad risg ar gyfer rheoli traffig ar gael yn Nogfen 2 o 3, sef, 'Rheoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol'.**

#### **Ar ôl i'r asesiad risg gael ei gwblhau**

- cadw cofnod o'r canfyddiadau
- rhoi gwybod i'r holl bobl berthnasol am y canfyddiadau
- gweithredu'r mesurau rheoli sydd wedi'u pennu i fod yn angenrheidiol yn ogystal â'r rhai sydd eisoes yn eu lle, fel, a phan, y bo'n ymarferol

Gall rhai mesurau rheoli fod yn ffisegol, megis rhwystrau, croesfannau, arwyddion a marciau llwybr newydd ac ati; gall rhai fod yn sefydliadol, er enghraifft, yr amserau sydd wedi'u pennu ar gyfer dosbarthu a chasglu nwyddau, tra gall eraill fod yn oruchwyliol

Gall mesurau ffisegol, yn arbennig, yn golygu goblygiadau cost ac efallai y bydd raid eu cyflwyno dros gyfnod o amser, gan ddibynnu ar ystyriaethau cyllidebol. Serch hynny, lle mae risg yn parhau i fod yn sylweddol uchel ar ôl gweithredu unrhyw fesurau rheoli uniongyrchol, yna, rhaid i gamau gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r risg o hyd, er enghraifft, gwahardd cerbydau rhag mynd ar y safle

- datblygu a gweithredu cynllun rheoli traffig, gan ystyried canfyddiadau'r asesiad risg rheoli traffig

#### **4. CYNLLUN RHEOLI TRAFFIG**

Pwrpas datblygu Cynllun Rheoli Traffig yw paratoi dogfen sy'n nodi rheolau angenrheidiol i'w gweithredu ar y safle sydd wedi'u pennu yn yr asesiad risg ar gyfer rheoli traffig, gyda golwg ar atal niwed i bobl gan wrthdrawiad â cherbydau.

Dylai'r Cynllun Rheoli Traffig nodi'r staff sydd â chyfrifoldebau penodol, megis swyddogaethau goruchwyllo, a nodi'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan holl ddefnyddwyr y safle, gan gynnwys staff, disgyblion, gyrwyr bysiau / bysiau mini / tacsis, rhieni, gyrwyr cerbydau dosbarthu a chasglu nwyddau, contractwyr ac unrhyw ymwelwyr eraill, mewn perthynas â diogelwch traffig. Dylai ymdrin â materion penodol megis terfyn cyflymder y safle, cerbydau'n symud tuag yn ôl, parcio, dosbarthu a chasglu nwyddau, sut bydd y rheolau safle yn cael eu monitro a sut bydd achosion o dorri rheolau yn cael eu hadrodd a'u trin.

Rhaid rhoi gwybod i bob person perthnasol am y Cynllun Rheoli Traffig, neu'r rhannau priodol ohono. Er enghraifft: byddai modd rhoi copi i bob aelod o staff;

gallai staff priodol ddarllen trwy'u copi personol gyda'u disgyblion; gallai copi gael ei roi ar wefan yr ysgol, wedi'i arddangos yn glir, er mwyn i ddisgyblion ac ymwelwyr posibl ei weld, ynghyd â chontractwyr, rhieni, darparwyr gwasanaeth a'r rheiny sy'n gyrru eu cerbydau; gallai copi gael ei arddangos yn y dderbynfa gydag eraill ar gael ar gais; ac ati.

Gall Cynllun Rheoli Traffig ddilyn y fformat isod.

### **Cyflwyniad**

Dylai'r adran yma gynnwys disgrifiad cryno o'r safle ac o'r bobl a'r cerbydau sy'n ei ddefnyddio.

Dylai nodi'r rhesymau pam mae'r Cynllun Rheoli Traffig wedi'i baratoi, gan gyfeirio at yr asesiad risg ar gyfer rheoli traffig, a phwysleisio pwysigrwydd rheoli diogelwch traffig.

Dylai nodi'n glir at bwy mae'r Cynllun Rheoli Traffig wedi'i anelu, bod rhaid i bob defnyddiwr safle gydymffurfio â'r rheolau sydd ynddo, ac y bydd torri rheolau yn cael ei ystyried yn ddifrifol a bydd camau yn cael eu cymryd yn sgil hynny, er enghraifft: camau disgyblu yn erbyn staff / disgyblion; rhoi gwybod i gyflogwyr am yrwyr sy'n torri rheolau; gwahardd troseddwr rhag mynd ar y safle ac ati.

Dylai ddisgrifio'r modd y bydd y Cynllun Rheoli Traffig yn cael ei ddwyn i sylw'r defnyddwyr safle amrywiol a lle mae modd cael copïau ohono.

### **Mynediad i'r Safle a Chynllun y Safle**

Dylai'r adran yma ddarparu cynllun o'r ysgol a'r ardal sy'n uniongyrchol gyfagos.

Dylai'r cynllun ddangos pethau fel: safleoedd bysiau, meysydd parcio, croesfannau i gerddwyr gerllaw sydd oddi ar y safle; mynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer cerddwyr, cerbydau neu'r ddau; cilfachau parcio bysiau / bysiau mini / tacsis; manau gollwng, a ph'un a oes unrhyw rai ar gyfer pobl agored i niwed; manau dosbarthu/casglu nwyddau; parthau gwahardd cerddwyr; llwybrau traffig unffordd, cylchoedd troi; croesfannau i gerddwyr; meysydd parcio, gan gynnwys cilfachau parcio ar gyfer yr anabl ac unrhyw rai sydd wedi'u dyrannu yn arbennig i staff, disgyblion neu ymwelwyr ac ati.

### **Terfyn cyflymder ar y safle**

Dylai'r adran yma nodi'n glir y terfyn cyflymder sydd wedi'i bennu ar gyfer y safle.

Dylai bwysleisio bod y mwyaf cyflym mae'r cerbyd yn cael ei yrru, y mwyaf tebygol yw hi y bydd damwain yn digwydd, a'r mwyaf tebygol y bydd hi y bydd pobl sydd mewn damwain yn cael eu hanafu'n ddifrifol.

## **Mater(ion) Safle Penodol**

Dylech chi ddefnyddio'r adran yma i nodi unrhyw fater penodol ar y safle (ar wahân i'r terfyn cyflymder) rydych chi o'r farn sydd angen cael ei amlygu, er enghraifft, p'un a oes system draffig unffordd, cylch troi, man llwytho / cilfachau parcio lle nad oes angen symud tuag yn ôl mewn cerbyd, ac felly lle nad oes hawl i wneud hynny.

## **Cerddwyr**

Dylai'r adran yma ddisgrifio'r llwybrau cerdded amrywiol sydd yn uniongyrchol y tu allan i'r safle, a fyddai'n cael eu defnyddio i'w gyrraedd. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'u defnyddio nhw mewn modd diogel, er enghraifft, defnyddio croesfannau dynodedig i gerddwyr, cerdded yn y fath fodd fel nad oes rhaid mynd ar unrhyw briffyrdd cyfagos na'i gwneud hi'n angenrheidiol i eraill wneud yr un peth ac ati.

Dylai bwysleisio y dylai cerddwyr fynd i mewn i'r safle a'i adael drwy ddefnyddio'r manau dynodedig yn unig; dylai'r manau yma gael eu nodi. Yn ogystal â hynny, dylai bwysleisio y dylai cerddwyr ddefnyddio'r llwybrau dynodedig i gerddwyr i gyrraedd a gadael adeiladau, gan ddefnyddio unrhyw groesfannau dynodedig ar hyd y llwybrau.

Dylai nodi a ddylai unrhyw fannau penodol gael eu defnyddio i fynd i mewn neu adael yn unig, boed hynny wrth fynedfeydd adeiladau neu fynedfeydd safleoedd. Rhaid nodi'r manau yma.

Dylai bwysleisio'r angen i gerddwyr fod yn ofalus wrth ddefnyddio mynedfeydd ac allanfeydd i gerddwyr, llwybrau sy'n croesi neu'n cyffwrdd â mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau i gerbydau, yn arbennig yn ystod cyfnodau brig.

## **Staff**

Dylai'r adran yma nodi'r hyn sy'n ofynnol gan staff yn gyffredinol (yn hytrach nag unrhyw swyddogaethau / cyfrifoldebau penodol, er enghraifft, y rheiny sydd â dyletswyddau goruchwyllo).

Dylai bwysleisio pwysigrwydd gosod esiampol dda i ddisgyblion (ac eraill) gan y staff drwy gydymffurfio â'r holl reolau traffig ar y safle, ufuddhau i'r terfyn cyflymder ar y safle, dilyn llwybrau traffig unffordd, parcio mewn cilfachau parcio sydd ar gyfer staff yn unig, ac ati.

Dylai atgoffa staff nad yw rhai disgyblion, yn enwedig plant bach neu'r rheiny sydd ag anawsterau dysgu, yn effro i ddiogelwch y ffyrdd a bod risgiau sy'n gysylltiedig â hyn. Rhaid i staff gymryd hyn i ystyriaeth wrth yrru ar/ger y safle.

Dylai nodi unrhyw feysydd parcio sydd wedi'u neilltuo ar gyfer staff yn unig.

Dylai nodi'n glir y bydd disgwyl i staff roi gwybod am unrhyw achosion o dorri rheolau traffig ar y safle (maen nhw'n eu gweld) i berson priodol, er enghraifft, pennaeth yr adran, Pennaeth yr ysgol, Dirprwy Bennaeth yr ysgol, rheolwr y safle, fel y bo'n briodol.

## Disgyblion

Dylai'r adran yma nodi'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan ddisgyblion.

Dylai nodi'r holl reolau safle y mae disgwyl i ddisgyblion gydymffurfio â nhw a'r ymddygiad sy'n cael ei ddisgwyl ganddyn nhw, er enghraifft:

- wrth gerdded, defnyddio mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau sydd ar gyfer cerddwyr yn unig, a pheidio â defnyddio'r rheiny sydd ar gyfer cerbydau;
- os y disgyblion sy'n gyrru, defnyddio mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau ar gyfer cerbydau yn unig a pheidio â defnyddio'r rheiny sydd ar gyfer cerddwyr;
- os y disgyblion sy'n gyrru, parcio'u cerbydau mewn mannau parcio sydd ar gyfer disgyblion yn unig (lle bo mannau parcio ar gyfer disgyblion) a dangos yn glir ble mae'r mannau parcio yma;
- peidio â dringo waliau/ffensys i gyrraedd y safle;
- wrth gerdded, defnyddio croesfannau dynodedig yn unig i groesi llwybrau i gerbydau gan gymryd gofal cyn gwneud hynny, hynny yw, stopio, edrych a gwrando, yn enwedig os yw dillad y disgybl yn cyfyngu ar ei olwg neu'i glyw, er enghraifft, siacedi â chwfl;
- wrth gerdded, peidio â defnyddio ffonau symudol / clustffonau ac ati, a fydd yn tynnu eu sylw neu'n amharu ar eu clyw;
- cerdded ac nid rhedeg
- peidio â cherdded dros fannau parcio ar gyfer ceir, bysiau / bysiau mini / tacsis, na mannau gollwng;
- peidio â gwthio disgyblion eraill i lwybrau cerbydau;
- wrth gael eu gollwng, gadael y cerbyd ar ochr y pafin;
- wrth deithio ar y bws:
  - dilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr / staff goruchwylio ac ymddwyn mewn ffordd gyfrifol;
  - mynd ar y bws a dod oddi arno unwaith i'r bws ddod i stop mewn ardal benodedig yn unig;
  - defnyddio llwybrau penodedig / croesfannau i gerddwyr i gyrraedd y safle bysiau neu ar ôl dod oddi ar y bws.

## **Man gollwng/casglu plant i rieni**

Dylai'r adran yma nodi'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan rieni sydd yn gollwng neu'n casglu eu plant.

Dylai hi nodi a oes hawl gan rieni i ddod ar y safle i ollwng neu gasglu eu plant.

Lle nad oes hawl, dylai hi esbonio bod stopio mewn safleoedd bysiau y tu allan i'r safle, o flaen mynedfeydd/allanfeydd i gerddwyr/cerbydau, ar lwybrau cerdded ac ati, yn achosi risg a bod gofyn iddyn nhw beidio â gwneud hyn.

Lle bod hawl i rieni ddod ar y safle, dylai hi ei gwneud hi'n glir bod rhaid cydymffurfio â'r rheolau traffig, er enghraifft, defnyddio mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau dynodedig i gerbydau, dilyn unrhyw gyfyngiadau amser, peidio â gyrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder, dilyn unrhyw systemau unffordd, defnyddio unrhyw fannau gollwng plant (a ddylai gael eu dangos), a stopio fel bydd modd i blant ddod allan o'r car ar ochr y pafin, ac ati.

## **Ymwelwyr**

Dylai'r adran yma nodi'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan ymwelwyr.

Dylai nodi a oes hawl gyda nhw i ddod ar y safle yn eu cerbydau.

Lle nad oes hawl, dylai hi esbonio bod parcio mewn safleoedd bysiau y tu allan i'r safle, o flaen mynedfeydd/allanfeydd i gerddwyr/cerbydau, ar lwybrau cerdded ac ati, yn achosi risg a bod gofyn iddyn nhw beidio â gwneud hyn.

Lle bod hawl gyda nhw i ddod â'u cerbydau ar y safle, dylai hi nodi'n glir ble byddan nhw'n cael parcio a bod rhaid cydymffurfio â rheolau traffig y safle, er enghraifft, defnyddio mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau dynodedig i gerbydau, peidio â gyrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder a dilyn unrhyw systemau unffordd, ac ati. Dylai hi egluro os bydd y mannau parcio i ymwelwyr i gyd yn llawn, bod rhaid iddyn nhw barcio oddi ar y safle, gan ofyn iddyn nhw wneud hyn mewn modd diogel.

Dylai roi gwybod i ymwelwyr bod rhaid cysylltu â derbynfa'r ysgol i drafod y manylion ynglŷn â dod ar y safle a pharcio cyn ymweld â hi.

Dylai roi gwybod i ymwelwyr bod rhaid dod i mewn i safle'r ysgol drwy'r dderbynfa, llofnodi'r gofrestr ar ôl cyrraedd gan roi rhif cofrestru'r car (lle bo parcio ar y safle yn cael ei ganiatáu) a nodi pwy maen nhw'n ymweld ag e, a llofnodi wrth adael.

## **Mynediad a mannau parcio i bobl anabl**

Dylai'r adran yma nodi lleoliad unrhyw fannau parcio i bobl anabl, y cyfleusterau ar gyfer mynediad i adeiladau ar gyfer pobl anabl, a'r ffordd orau o fynd o'r ciliafachau parcio i'r mannau mynediad.



## **Gwasanaethau hurio cerbydau dan gontract**

Dylai'r adran yma nodi pob gwasanaeth o'r fath, a darparu ar eu cyfer nhw, sy'n dod ar y safle, er enghraifft, bysiau, bysiau mini, tacsis ac ati, a nodi unrhyw fannau penodedig ar eu cyfer nhw - cilfachau parcio, mannau gollwng.

Mae'n bosibl y bydd cyfarwyddiadau penodol yn cael eu rhoi i yrwyr cerbydau o'r fath yn rhan o amodau eu contractau nhw.

Serch hynny, heb ystyried unrhyw ofynion contract o'r fath, dylai'r adran yma roi gwybod i yrwyr y cerbydau yma bod rhaid iddyn nhw ddilyn rheolau traffig y safle, gan gynnwys y materion canlynol:

- cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau amser sydd wedi'u gosod ynglŷn â phryd bydd modd iddyn nhw ddod ar y safle;
- defnyddio mynedfeydd/allanfeydd/llwybrau penodol i gerbydau, dilyn y terfyn cyflymder ac unrhyw system unffordd ac ati.
- sicrhau eu bod nhw dim ond yn stopio yn y cilfachau penodedig ac nad oes cerddwyr yn y cilfachau cyn mynd i mewn iddyn nhw neu'u gadael;
- sicrhau bod cerbydau wedi stopio yn gyfan gwbl a bod yr injan wedi cael ei diffodd (oni bai fod rheswm dros eu cadw nhw'n rhedeg) a bod y brêc ymlaen cyn gadael i ddisgyblion ddod ohonyn nhw neu fynd i mewn iddyn nhw;
- cydymffurfio â'r holl weithdrefnau cyrraedd/gadael;
- tynnu sylw staff goruchwyllo at unrhyw bryderon.

## **Cerbydau contractwyr a cherbydau sy'n dosbarthu/casglu nwyddau**

Dylai'r adran yma ystyried pob cerbyd a all ddod ar y safle a darparu ar eu cyfer nhw, er enghraifft, cerbydau sy'n perthyn i gontractwyr sy'n cynnal gwaith ar y safle, cerbydau sy'n dosbarthu nwyddau, cerbydau sy'n casglu sbwriel a deunydd ailgylchu ac ati, a nodi unrhyw fannau sydd wedi'u neilltuo ar eu cyfer nhw, er enghraifft, cilfachau dosbarthu nwyddau, mannau casglu sbwriel / deunydd ailgylchu.

Mae'n bosibl y bydd cyfarwyddiadau penodol yn cael eu rhoi i yrwyr cerbydau o'r fath yn rhan o amodau eu contractau nhw neu eu cytundebau cyflawni gwasanaeth.

Serch hynny, heb ystyried unrhyw ofynion contract / cyflawni gwasanaeth o'r fath, dylai'r adran yma roi gwybod i yrwyr y cerbydau yma bod rhaid iddyn nhw ddilyn rheolau traffig y safle, gan gynnwys y materion canlynol:

- cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau amser sydd wedi'u gosod ynglŷn â phryd bydd modd iddyn nhw ddod ar y safle;

- defnyddio mynedfeydd/allanfeydd/llwybrau penodol i gerbydau yn unig, dilyn y terfyn cyflymder ac unrhyw system unffordd yn ogystal ag unrhyw reolau o ran symud tuag yn ôl ac ati.
- lle maen nhw'n cael parcio'u cerbydau, gofynion o ran llofnodi wrth gyrraedd a gadael (contractwyr, er enghraifft);
- sicrhau eu bod nhw dim ond yn stopio yn y manau dosbarthu/casglu nwyddau penodedig, ac nad oes cerddwyr yn y cilfachau cyn mynd i mewn iddyn nhw neu'u gadael;

## **Y tu allan i'r ysgol**

Dylai'r adran yma egluro nad oes gan yr ysgol awdurdod i osod unrhyw gyfyngiadau neu ofynion ar yrwyr cerbydau y tu allan i safle'r ysgol, ond y gallai gyrru neu barcio'n anghyfrifol gynyddu'r risg o ddamweiniau sy'n gysylltiedig â thraffig, yn enwedig damweiniau sy'n cynnwys disgyblion. Dylai hefyd ofyn bod pob person sy'n ymweld â'r ysgol yn ystyried hyn a gyrru a pharcio mewn modd cyfrifol.

Dylai hefyd esbonio bod yr ysgol yn dymuno bod yn gymydog ystyriol i drigolion lleol, ac y gall pobl sy'n ymweld â'r ysgol sy'n gyrru / parcio'n anghyfrifol achosi drwgdeimlad rhwng yr ysgol a'r trigolion.

Dylai enghreifftiau gael eu rhoi o yrru a pharcio mewn modd anghyfrifol sydd raid eu hosgoi, er enghraifft, gyrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder; parcio mewn modd sy'n rhwystro manau cyrraedd a gadael yr ysgol; parcio mewn manau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer trigolion yn unig; parcio dwbl; parcio ar bafinau neu ar bafinau yn rhannol, parcio ar linellau melyn dwbl; parcio ar groesfannau i gerddwyr neu yn agos atyn nhw; parcio mewn manau sy'n rhwystro mynediad i'r strydoedd ac i gilfachau parcio preifat; parcio ger cyffyrdd, ac ati.

Dylai'r adran yma hefyd sôn am y llwybrau a'r croesfannau i gerddwyr sydd yng nghyffiniau uniongyrchol yr ysgol gan fynnu bod staff a disgyblion yn eu defnyddio, a gofyn bod pob ymwelydd i'r ysgol sy'n cerdded ar y safle yn eu defnyddio hefyd.

## **Goruchwylio**

Dylai'r adran yma nodi'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu rhestr ddyletswyddau o ran goruchwylio traffig a sicrhau bod nifer briodol o oruchwylwyr ar ddyletswydd ar yr adegau ac yn y lleoliadau gofynnol.

Dylai nodi aelodau'r staff hynny a'r amserau a'r lleoliadau.

Dylai nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau staff goruchwylio.

Dylai fynnu bod cyfarwyddyd angenrheidiol yn cael ei ddarparu ar gyfer y staff goruchwylio sy'n ymwneud â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a sut i sicrhau eu diogelwch eu hunain wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid bod siacedi llachar yn

cael eu darparu ar eu cyfer (a'u bod nhw'n cael eu gwisgo) fel eu bod nhw i'w gweld yn glir wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

## **Monitro**

Dylai'r adran yma bwysleisio bod angen monitro cydymffurfiaeth â'i ofynion er mwyn i'r Cynllun Rheoli Traffig fod yn effeithiol, a bydd achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hadrodd i staff priodol a champau addas yn cael eu cymryd.

Dylai nodi'n glir y bydd disgwyl i staff roi gwybod am unrhyw achosion o dorri'r rheolau traffig ar y safle (maen nhw'n eu gweld) p'un a oes gyda nhw gyfrifoldeb goruchwylio neu beidio.

Dylai nodi raglen o waith monitro rheolaidd, unwaith yr wythnos er enghraifft, a nodi pwy ddylai ymgymryd â'r gwaith monitro hwnnw.

Dylai'r adran yma nodi bod rhaid cofnodi manylion yr arolygiadau monitro arfaethedig, a bod rhaid nodi achosion o beidio â chydymffurfio sydd wedi'u gweld yn ystod y gwaith monitro neu ar unrhyw adegau eraill.

Dylai egluro i bwy y dylid rhoi gwybod am achosion o beidio â chydymffurfio.

Dylai hefyd roi enghreifftiau o ba gamau a fydd yn cael eu cymryd mewn achosion o beidio â chydymffurfio, megis cymryd camau disgyblu yn erbyn staff / disgyblion, gwahardd rhieni rhag cael mynediad i dir yr ysgol, bod contractwyr / darparwyr gwasanaethau yn cael gwybod am eu gyrwyr sydd wedi'u gwahardd rhag mynd ar y safle a bod colli contractau yn bosibilrwydd ac ati.

## **Rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau traffig ar safleoedd**

Dylai'r adran yma ei gwneud hi'n glir bod rhaid i bob defnyddiwr safle roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad / damwain i berson sy'n briodol gyfrifol, a nodi pwy yw'r person hwnnw, er enghraifft, y Dirprwy Bennaeth, y gofalwr, y rheolwr safle, fel y bo'n briodol ac fel sydd wedi'i bennu gan y Pennaeth.

Dylai hefyd nodi bod rhaid i'r person cyfrifol ymchwilio i bob digwyddiad/damwain i'r radd briodol, yn bennaf gyda golwg ar nodi unrhyw fesurau rheoli pellach y byddai modd eu cyflwyno i atal damwain debyg rhag digwydd eto.

Dylai hefyd nodi bod rhaid i'r swyddog cyfrifol roi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau i Garfan Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol y Cyngor drwy ddefnyddio'r *Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5 (A)* ac yn unol â *Chanllawiau Adrodd am Ddamweiniau* y Garfan.

Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid adrodd am ddigwyddiadau / damweiniau hefyd i'r Uned Drafnidiaeth Integredig (pan fydd y rhain yn cynnwys cerbyd sy'n perthyn i wasanaeth hurio cerbydau dan gontract) ac i gyflogwyr eraill (er enghraifft, wrth gynnwys cerbyd sy'n eiddo i gontractwr neu gerbyd cyflenwi), fel sy'n briodol.

## **Atodiadau**

Os yw'n cael ei ystyried yn ddefnyddiol i wneud hynny, bydd modd defnyddio atodiadau i nodi rhai o'r trefniadau penodol sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw yn yr adrannau blaenorol, er enghraifft: trefniadau ar gyfer mynedfeydd penodol i'r safle, er enghraifft, pryd y bydd gatiâu'n cael eu datgloi; pryd bydd y bysiau / bysiau mini / tacsis yn cael mynd ar y safle; dyletswyddau goruchwylio/monitro.

**Mae cynllun rheoli traffig enghreifftiol yn cael ei roi yn Nogfen 3 o 3 o 'Reoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol'.**

## **5. ADOLYGIADAU**

I sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn addas, yn ddigonol ac yn effeithiol, rhaid i asesiadau risg traffig a chynlluniau rheoli traffig gael eu hadolygu a'u diweddarau lle bo angen.

Dylen nhw gael eu hadolygu os oes unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar symudiad y traffig ar y safle, p'un ai a yw'r newidiadau hynny yn ymwneud ag amgylchiadau ar y safle neu oddi arno.

Dylen nhw gael eu hadolygu os digwydd damwain sy'n ymwneud â thraffig er mwyn penderfynu a oes angen cyflwyno mesurau rheoli gwahanol neu ychwanegol er mwyn atal damwain debyg rhag digwydd eto.

Dylen nhw gael eu hadolygu os yw awgrymiadau yn cael eu gwneud o ran eu gwella, er enghraifft, gan staff.

Dylen nhw gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd beth bynnag, rhag ofn bod newidiadau wedi bod, a bod neb wedi sylwi arnyn nhw, er enghraifft, newidiadau o ran arferion / y rheiny sy'n mynd ar y safle ac yn ei ddefnyddio / technoleg rheoli traffig ymarferol sydd ar gael, ac ati.

## **6. CYNGOR**

Mae rhagor o gyngor ar gael gan:

Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor, Tŷ Elái, Trewiliam CF40 1NY  
Ffôn: 01443 425531

a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch drwy ei wefan:

<http://www.hse.gov.uk/search/search-results.htm?gsc.q=traffic%20management#gsc.tab=0&gsc.q=traffic%20management&gsc.page=1>

## **7. DOGFENNAU PERTHNASOL**

Dogfen 2 o 3 - Asesiad Risg Enghreifftiol ar gyfer Rheoli Traffig

Dogfen 3 o 3 - Cynllun Rheoli Traffig Enghreifftiol

Mae Dogfennau 1, 2 a 3, yn ogystal â ffurflenni asesu risg gwag, ar gael ar *Ffynhonnell RhCT / RCT Source* a thrwy gysylltu â Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor ar 01443 425531.